



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru

Mawrth 2020

Rhagair

Jane Hutt - y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip



Mae'n bleser imi gael lansio'r cynllun i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn deillio o adroddiad Gwneud nid Dweud a'r Map sy'n nodi argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru ac eraill yng Nghymru i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Mae'n amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig ac mae'n edrych i'r dyfodol i bennu rhai ymrwymadau tymor hir. Rwy'n hyderus y bydd y cynllun hwn yn datblygu'n barhaus ac y bydd yn rhan allweddol o'r broses o ddatblygu polisi o fewn Llywodraeth Cymru. Mae adroddiad Gwneud nid Dweud a'r Map eisoes yn dylanwadu ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, ac mae'r argymhellion yn newid y ffordd rydym yn ystyried effeithiau a datblygiad polisiâu a rhaglenni o ran cydraddoldeb deilliannau, nid dim ond cydraddoldeb cyfleoedd.

Mae'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu cynnig arweiniad yn y maes hwn yn destun balchder imi. Bydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau menywod a merched yng Nghymru. Mae anghydraddoldeb rhwng y rhywiau wedi bod yn fater sy'n codi'n gyson, ac er ei fod wedi cael sylw mewn nifer o ffyrdd, mae'r cynnydd wedi bod yn araf dros ben. Fy mwriad yw i'r cynllun hwn ysgogi newid sylweddol a fydd yn para am byth inni yng Nghymru.

Un o'n nodau yng Nghymru yw cael llywodraeth ffeministaidd, ac mae'r cynllun hwn yn gam cyntaf tuag at gyflawni'r amcan hwnnw, a gwireddu'r weledigaeth hirdymor o gydraddoldeb gwirioneddol rhwng y rhywiau ledled y wlad. Yr unig ffordd o wneud hyn yw hyrwyddo cydraddoldeb ar ran y rheini nad yw wedi'i sicrhau ar eu cyfer ar hyn o bryd, a sicrhau bod ffurfiau amryfal, rhyngblethol ar anfantais a chamwahaniaethu yn cael eu herio pan ddown ar eu traws, drwy bolisi a threfniadau gweithredu. Rhaid creu sylfaen dystiolaeth a chasglu data fel sail i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchoddedig sy'n gysylltiedig â menywod.

Jane Hutt

Y daith hyd yma

Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ar y pryd adolygiad cyflym o gydraddoldeb rhwng y rhywiau er mwyn hwyluso'r ffordd i wneud Llywodraeth Cymru yn llywodraeth ffeministaidd. Yr adolygiad cyflym hwn oedd cam 1 yr Adolygiad o Gydraddoldeb rhwng y Rhywiau. Cwblhawyd cam 2 ym mis Medi 2019 pan gyhoeddwyd adroddiad Gwneud nid Dweud, a Map sy'n cyflwyno gweledigaeth a chyfres o argymhellion ar gyfer sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru.

Beth yw'r broblem rydym yn ceisio ei datrys?

Er gwaethaf degawdau o ddeddfwriaeth a pholisi gan yr UE, y DU a Chymru, mae'r anghydraddoldebau rhyngblethol systemig rhwng y rhywiau yn parhau. Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn, ac aeth ati i gomisiynu'r adolygiad o gydraddoldeb rhwng y rhywiau er mwyn sefydlu sut i gyflawni'r uchelgais o sicrhau cydraddoldeb mwy.

Camau pwysig ymlaen

Ym mis Mawrth 2019, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weledigaeth ac egwyddorion o blaid cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru:

Y weledigaeth

Mae Cymru sy'n arddel cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn wlad lle mae menywod, dynion a phobl anneuaid yn rhannu pŵer, adnoddau a dylanwad yn gyfartal. Dyma weledigaeth lle mae'r llywodraeth yn anelu at greu amodau i sicrhau cydraddoldeb i bawb o ran deilliannau.

Rydym am weld Cymru lle:

- mae'n bosibl i bob menyw fod yn economaidd-annibynnol a lle mae gwerth i weithio am dâl ac yn ddi-dâl

- mae amrywiaeth o fenywod yn cael eu cynrychioli'n deg mewn swyddi dylanwadol gan gael eu grymuso i chwarae rôl ystyrion mewn cymdeithas
- mae pob menyw yn rhydd rhag camwahaniaethu ac yn rhydd i fyw eu bywydau fel y mynnant
- mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dod i ben
- mae strwythurau pŵer sy'n rhoi menywod o dan anfantais yn cael eu herio
- mae menywod, dynion a phobl anneuaid yn mwynhau hawliau ac amddiffyniadau cyfartal a chydaddoldeb o ran deilliannau.

Yr egwyddorion y cytunwyd arnynt yw bod Llywodraeth Cymru ffeministaidd:

Mae Llywodraeth Cymru ffeministaidd:

- Wedi ymrwymo i gydraddoldeb o ran deilliannau i fenywod, dynion a phobl anneuaid ac yn gweithio i ysgogi newid diwylliannol a strwythurol
- Yn rhagweithiol o ran hyrwyddo a hybu cydraddoldeb a dileu y rhwystrau sy'n atal menywod rhag cymryd rhan weithredol yn yr economi, a bywyd cyhoeddus a chymdeithasol
- Yn rhoi safbwynt rhywedd wrth galon y broses o wneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau a'r gyllideb
- Yn seiliedig ar feddylfryd rhyngblethol¹ tuag at ei gwaith; yn sicrhau cynrychiolaeth eang, cyfranogiad gan amrywiaeth o bobl ac yn gwrandao ar farn amrywiaeth o bobl
- Yn canolbwyntio ar bobl ac yn gydweithredol, gan sicrhau bod pob cymuned yn ymwneud â'i gwaith mewn ffordd ystyrion
- Yn agored, yn dryloyw, ac yn atebol; ac yn croesawu pobl i graffu ar ei gwaith o safbwynt rhywedd
- Yn gwneud defnydd o ddulliau datblygu a dadansoddi polisïau i wneud cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn rhan o'i holl waith, ac yn monitro cynnydd tuag at gydraddoldeb, gan ddefnyddio sail dystiolaeth gadarn
- Yn arwain drwy esiampl, ac yn cefnogi cyrff cyhoeddus i weithredu i gyflawni cydraddoldeb.

Bydd yr egwyddorion hyn yn llywio ein harferion a'n polisïau ar draws Llywodraeth Cymru, a byddant yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn ymddwyn fel cyflogwr, lluniwr polisïau a chorff deddfu.

¹ *dealltwriaeth o'r ffordd y gall nodweddion, fel rhywedd, hil neu ddosbarth, ddylanwadu ar ei gilydd, a chreu profiadau ac anfanteision unigryw sydd yn aml yn rhai amryfal.*

Beth fydd natur gwir gydraddoldeb rhwng y rhywiau?

Un o nodau Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau i'r pwynt lle caiff menywod, dynion a phobl anneauaid eu trin yn gyfartal ac yn deg ym mhob agwedd ar eu bywydau, gan ganolbwyntio ar gydraddoldeb deilliannau. Mae hyn yn berthnasol hefyd i fenywod sy'n profi anghydraddoldeb rhyngblethol, ee anabledd, hil, LGBT+, oedran, statws priodasol, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, sy'n gallu creu anghydraddoldebau newydd neu gyfansawdd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw unrhyw un mater neu rwystr penodol yn diffinio unrhyw un, ond bod pobl yn gymhleth, a bod angen pethau gwahanol i'w galluogi i gymryd rhan yn llawn ym mywyd Cymru. Yn yr un modd, mae anghydraddoldebau sy'n deillio o systemau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yn gymhleth, ac mae angen gweithredu ar draws y systemau hyn i'w rhwystro rhag ail-greu deilliannau anghyfartal.

Nod cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru fydd sicrhau bod **pob** maes polisi a reolir gan Lywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth i anghenion rhyngblethol dinasyddion Cymru wrth ddatblygu a gweithredu polisi ac arferion. Bydd y dull hwn o lunio a gweithredu polisi sy'n ymateb i'r sefyllfa yn helpu Llywodraeth Cymru fel cyflogwr ac arweinydd y sector cyhoeddus yng Nghymru i wireddu'r weledigaeth ar gyfer cydraddoldeb rhwng y rhywiau rydym wedi ymrwymo iddi. Yr allwedd i wireddu'r weledigaeth a'n hamcanion ar gyfer Cymru sy'n sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau fydd newid y ffocws o gydraddoldeb cyfleoedd i gydraddoldeb deilliannau. Mae Gwneud nid Dweud yn nodi'r hyn y mae angen i'r llywodraeth ei gyflawni, a'r adnoddau a'r dulliau gweithio y bydd angen iddi eu mabwysiadu er mwyn gwneud hynny. Mae'r Map yn canolbwyntio ar y camau y mae angen eu cymryd mewn meysydd polisi penodol.

Y Map

Nododd yr Adolygiad o Gydraddoldeb rhwng y Rhywiau feysydd polisi a ddiffiniwyd gan randdeiliaid fel camau cyntaf allweddol i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio arnynt. Bydd y meysydd a nodwyd yn rhan o'r cynllun gweithredu a chânt eu rheoli'n lleol gan y meysydd polisi arweiniol er mwyn sicrhau y cânt eu datblygu'n llawn a'u bod yn ymateb i argymhellion y Map. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod camau i weithredu'r argymhellion yn cael eu cydgysylltu er mwyn inni allu monitro'r cynnydd a wnawn tuag at ein nod.

Sut bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli hyn?

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod hwn yn waith sylweddol sy'n debygol o olygu 20 mlynedd o ymyrraeth â chymorth er mwyn sicrhau'r newidiadau sydd gennym mewn golwg. Bydd effeithiau'r Adolygiad o Gydraddoldeb rhwng y Rhywiau, felly, yn para drwy dymhorau sawl llywodraeth, a bydd yn ymrwymo llywodraethau'r dyfodol i weithredu i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y

rhywiau yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn gwbl ddigynsail. Er mwyn cyflawni'r amcan o sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau, mae angen ymrwymiad hirdymor. Bydd Llywodraeth Cymru yn gofalu bod grŵp amrywiol o randdeiliaid mewnol ac allanol yn goruchwyllo'r cynllun hwn drwy Grŵp Llywio Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a gadeirir gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip. Bydd y Grŵp Llywio yn cefnogi'r weledigaeth i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau ac yn herio Llywodraeth Cymru o ran sut caiff hyn ei gyflawni.

Elfennau rhyngblethol - beth yw'r rhain?

Wrth siarad am elfennau rhyngblethol, rydym yn cyfeirio at y ffordd y mae strwythurau pŵer, ar sail ffactorau fel rhywedd, hil, rhywioldeb, anabled, dosbarth, oedran a ffydd yn rhyngweithio â'i gilydd, ac yn creu anghydraddoldeb, camwahaniaethu a gormes. Yn hollbwysig, mae'n fater o ddeall y ffordd y gall nodweddion, fel rhywedd, hil neu ddosbarth, gydweithio i greu profiadau ac anfanteision unigryw sydd yn aml yn rhai amryfal mewn sefyllfaoedd penodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo hefyd drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn benodol drwy Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, i gydbwysu ystyriaethau economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol sy'n berthnasol i unigolion ac sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae hon yn enghraifft o elfennau rhyngblethol ehangach sy'n effeithio ar ddinasyddion Cymru.

Ni ellir deall un math penodol o gamwahaniaethu heb ei ystyried mewn perthynas â math arall, ac ni ddylid gwneud hynny. Mae gweithio ar sail wirioneddol rymblethol yn sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

Prif-ffrydio - sut mae cyflawni hyn?

Yn adroddiad Gwneud nid Dweud, diffinnir prif-ffrydio fel hyn:

Wrth brif ffrydio, golygwn integreiddio cydraddoldeb yn systematig ym mhob system a strwythur, pob polisi, proses a gweithdrefn, ac yn niwylliant sefydliad (Rees, 1998). Mae'n ymwneud ag integreiddio safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi, cynllunio, gweithredu, monitro a gwerthuso polisiau, mesurau rheoleiddio a rhaglenni gwario, gyda'r bwriad o hyrwyddo cydraddoldeb a brwydro yn erbyn gwahaniaethau.

Gellir cymhwyso prif ffrydio ar lefelau lluosog gan gynnwys y gwleidyddol, y lleol a'r sefydliadol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyn. Bydd Adolygiad o Alluogrwydd Polisiau, sydd ar y gweill ar hyn o bryd, yn sicrhau bod dull prif-ffrydio yn cael ei fabwysiadu fel arfer gorau wrth lunio polisi.

Sut bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar sail yr argymhellion?

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar gynllun i weithredu 50 argymhelliad Gwneud nid Dweud, a 31 argymhelliad y Map. Rydym wedi cynnal cyfres o weithdai mewnol gyda swyddogion yn y meysydd perthnasol i nodi'r camau blaenoriaeth i'w cymryd, nodi'r gwaith sydd eisoes ar y gweill, ac amlinellu cynllun ar gyfer gwaith pellach. Dyma'r cam cyntaf ar daith i ddatblygu cynllun manwl. Nodir y meysydd blaenoriaeth cyntaf isod. Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn ichi am eich adborth er mwyn ein helpu i lunio'r cynllun lefel uchel, fel y gallwn sicrhau ei fod mor ddefnyddiol â phosibl a mynd i'r afael â'r materion allweddol y mae pobl yng Nghymru am iddo roi sylw iddynt. Mae dau gynllun ynghlwm - un sy'n ein helpu i ganolbwyntio ar y camau a gymerwn mewn perthynas ag argymhellion Gwneud nid Dweud, ac un sy'n canolbwyntio ar feysydd polisi'r Map.

Cynllun gweithredu

Mae'r cynlluniau isod yn ymwneud â'r cyfnod hyd at 2023. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen ymrwymiad tymor hirach yn adroddiadau Gwneud nid Dweud a'r Map. Unwaith y byddwn wedi cytuno ar gynllun blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod hyd at 2023, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i fynd i'r afael â'r argymhellion tymor hirach a'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cyfrannu at gyflawni'r rheini. Mae angen datblygu'r cynllun hwn fesul cam, drwy brosesau a ailadroddir er mwyn cyrraedd y nod, ac mae'r cynllun cychwynnol hwn yn cydnabod y camau cyntaf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd tuag at greu Cymru lle mae cydraddoldeb llawn rhwng y rhywiau. Ar adegau penodol, eir ati i adolygu'r sefyllfa i asesu'r cynnydd. Bydd y gwaith gyda'n partneriaid allanol a mewnol yn parhau er mwyn datblygu ein cynlluniau tymor hirach ochr yn ochr â gweithredu'r cynlluniau blaenoriaeth cyntaf isod. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno ysgwyddo rôl glir fel arweinydd mewn perthynas â hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru, a bydd datblygu'r cynlluniau hyn yn allweddol yn hyn o beth.

Cynllun Gweithredu Amcanion Allweddol	2019	2020	2021	2022	2023+			
<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno Fframwaith Asesu Effaith newydd • Sicrhau bod gan y rheini sy'n llunio polisi ddealltwriaeth well o gydraddoldeb rhwng y rhywiau, ac o sut i lunio polisi o safbwynt yr elfennau rhyngblethol sy'n gysylltiedig â rhywedd (sefydlu dull o brif-ffrydio egwyddor cydraddoldeb wrth greu cylch polisi/yn ystyriaethau'r proffesiwn polisi) 	Diwedd yr adolygiad o alluogrwydd polisiâu, ac argymhellion	Cyflwyno fframwaith galluogrwydd polisi newydd						
		Datblygu Rhaglen Addysg Polisi newydd						
		Adolygu ac ailgynllunio'r canllawiau datblygu polisi						
		Diwedd yr adolygiad o'r Aseiad Effaith Integredig, ac argymhellion ar gyfer dull newydd o asesu effaith	Datblygu a chyflwyno dull newydd o asesu effaith					

Cynllun Gweithredu Amcanion Allweddol	2019	2020	2021	2022	2023+
<p>Treialu Cyllidebu ar sail Rhyw ar draws Llywodraeth Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> Dadansoddiadau cyllidol ac economaidd ac asesu effaith Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol 	<p>Ar sail adborth gan randdeiliaid a datblygiadau o ran asesu effaith, nodi blaenoriaethau polisi, a phenderfynu p'un a ddylid comisiynu mewnbnw allanol er mwyn helpu i lywio dull newydd o asesu effaith cyllideb.</p>		<p>Ystyried cynllun peilot cyllidebu ar sail rhyw, a nodi meysydd blaenoriaeth eraill i'w targedu. Rhoi sylw i'r gwersi a ddysgwyd hyd yma, gan gynnwys sut y gellir defnyddio'r cynllun peilot i fynd ati i ystyried nodweddion gwarchoddedig eraill o safbwynt rhyngblethol.</p>	<p>Adolygu'r dull gweithredu hyd yma, ac ystyried gwerth comisiynu adolygiad o'r dull fel sail i gynlluniau cyllidebu ar sail rhyw i'r dyfodol</p>	
	<p>Cynnal cynllun 'cyllidebu ar sail rhyw' peilot ar gyfer maes polisi penodol, a gwerthuso'r dull gweithredu fel sail i weithredu'n ehangach, ac ystyried canfyddiadau'r gwerthusiad o'r peilot fel sail i gyflwyno'r polisi yn ehangach</p>				
		<p>Cynnull aelodau presennol Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb ac aelodau posibl eraill mewn gweithdy er mwyn cytuno ar gylich gwaith i'r dyfodol a chyfansoddiad y grŵp, gan seilio'r drafodaeth ar ganfyddiadau ac argymhellion adolygiad Llywodraeth Cymru o gydraddoldeb rhwng y rhywiau a gyhoeddwyd yn yr hydref 2019</p>	<p>Ystyried ehangu'r dull o gyllidebu ar sail rhyw i feysydd polisi eraill, gyda'r nod o integreiddio'r dull a ddewisir i'r ystyriaethau ehangach o ran asesu effaith cyllideb</p>	<p>Ehangu'r arfer o dreialu cyllidebu ar sail rhyw ymhellach ar draws portffolios yn y ffordd sydd fwyaf cydnaws â'r amcanion a nodwyd mewn ymateb i argymhellion adolygiad 2019 o gydraddoldeb rhwng y rhywiau. Llunio adroddiadau interim ar ganfyddiadau cynlluniau cyllidebu ar sail rhyw peilot er mwyn nodi'r prif ganfyddiadau ac unrhyw newidiadau o ran datblygu neu weithredu polisi a ddaw yn eu sgil</p>	
		<p>Parhau i adolygu pwrpas, rôl ac aelodaeth Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb ac, os oes angen, mireinio'r cylch gorchwyl a'r mecanweithiau ymgysylltu er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i bob rhanddeiliad. Fel rhan o'r gwaith hwn, ystyried y ffordd orau i'r grŵp roi cyngor ar gyllidebu ar sail rhyw ac ystyriaethau cysylltiedig.</p>			

Cynllun Gweithredu Amcanion Allweddol	2019	2020	2021	2022	2023+
					<p>Gweithio ar y cyd ag Is-adran Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu Llywodraeth Cymru i ddatblygu hyfforddiant er mwyn sefydlu cymhwysedd o ran cydraddoldeb mewn perthynas â chyllidebu ar draws Llywodraeth Cymru. Ystyried y ffordd orau o ddefnyddio arbenigedd allanol wrth gynghori ar ddull Llywodraeth Cymru o ddatblygu polisi a dyrannu adnoddau ariannol, ac ategu'r dull hwnnw.</p> <p>Gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid mewnol allweddol fel timau Cydraddoldeb, Penaethiaid Cyllid, a'r proffesiwn polisi, i gefnogi dealltwriaeth ehangach o ddulliau cyllidebu ar sail rhyw a'u cymhwysu i'r gwaith o ddatblygu polisi a gweithgareddau 'cyllidebu' ar draws adrannau.</p> <div data-bbox="976 635 2119 960" style="border: 1px solid black; padding: 10px;"> <p>(TYMOR HIRACH) Datblygu dull Cymreig o gyllidebu ar sail rhyw mewn partneriaeth â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ac arbenigwyr eraill yn ôl yr angen.</p> <p>Bydd hyn yn ystyried y cyd-destun yng Nghymru a rôl Trysorlys Cymru yn y gwaith o ddatblygu Cyllideb Llywodraeth Cymru er mwyn darparu'r cyd-destun strategol lefel uchel a'r cyfyngiadau cyllidol y mae'r broses gyllidebu ehangach yn gweithio o'u mewn ledled adrannau Llywodraeth Cymru.</p> <p>Bydd angen datblygu'r dull hwn hefyd mewn cydweithrediad ag arweinwyr cyllid o fewn adrannau Llywodraeth Cymru i gydnabod eu rôl nhw o ran pennu cyllidebau o fewn portffolios Gweinidogol unigol. Mae hyn yn digwydd yn annibynnol ar gyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru, ond yn cyfrannu ati.</p> </div>

Cynllun Gweithredu Amcanion Allweddol	2019	2020	2021	2022	2023+
<ul style="list-style-type: none"> Defnydd mwy ar ddata cydraddoldeb wrth lunio polisi Gwella'r broses o goladu data cydraddoldeb fel rhan o waith ystadegau/gwaith ymchwil 	Cryfhau gwaith ymchwil ar Gydraddoldeb a Hyrwyddo Hawliau Dynol				
	<p>Alinio Data Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.</p> <p>Gwefan LIC newydd a choladu a chyhoeddi cynlluniau/adroddiadau cydraddoldeb</p>	<p>Cyflwyno'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol</p> <p>Adolygu'r dyletswyddau cydraddoldeb presennol sy'n benodol i Gymru</p>	Parhau i adolygu'r dyletswyddau cydraddoldeb presennol sy'n benodol i Gymru	Drafftio dyletswyddau cydraddoldeb newydd sy'n benodol i Gymru	
Arweinyddiaeth		Datblygu arweinyddiaeth			
		Cyhoeddi strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer penodiadau cyhoeddus			

Cynllun Gweithredu Amcanion Allweddol	2019	2020	2021	2022	2023+
		<p>Yn ystod 2020, byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi Strategaeth Pobl Llywodraeth Cymru 2020-2025. Bydd hyn yn cynnwys pennod ganolog ar gydraddoldeb (gan ddisodli ein Cynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant blaenorol a oedd yn sefyll ar ei ben ei hun ac sy'n dod i ben yn 2020). Caiff camau a fydd yn deillio o argymhellion adolygiad y rhywiau eu hymgorffori yma. Bydd datblygu'r Strategaeth Pobl - a'r bennod ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn ein gweithlu - yn golygu ymgysylltu â staff drwy amrywiol ffyrdd, gan gynnwys gweithio gyda rhwydweithiau staff (gan gynnwys Menywod Ynghyd) a'r boblogaeth staff ehangach. Yn Strategaeth Pobl 2020-2025, byddwn yn parhau i roi pwyslais sylweddol ar ein rhaglenni datblygu a buddsoddi cryn dipyn ynddynt er mwyn cefnogi ac annog menywod sy'n anelu at gyrraedd lefel nesaf eu gyrfa - gan gynnwys arweinyddiaeth ar lefel uwch.</p> <p>Yn ystod 2020-2025 byddwn yn gweithredu'r camau yn y Strategaeth Pobl a'r bennod ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â'n gweithlu.</p> <p>Adolygiad Llawn o Delerau Cyflogaeth a Chyflog LIC er mwyn nodi'r elfennau sy'n cyfrannu at y bylchau cyflog rhwng y rhywiau, ac asesiad o'r cynllun gwerthuso swyddi cyfredol o safbwynt gwerth cyfartal.</p>			
		<p>Fel rhan o Strategaeth Pobl 2020-2025 sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar y modelau galluogrwydd, capasiti a gweithredu y bydd eu hangen ar wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi Gweinidogion drwy'r cam datganoli nesaf. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae adolygiad sylfaenol o bob swydd wedi'i gynnal, a chaiff hwn ei ddefnyddio fel sail i strategaeth y gweithlu a gwaith datblygu sefydliadol yn ystod 2020/2021.</p>			
		<p>Adolygu'r polisïau tadolaeth ar draws cyrff cyhoeddus Cymru</p> <p>Llythyr Gweinidogol drafft i roi gwybod i Lywodraeth y DU bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r argymhelliad hwn</p>			

		<p>Asesiad Economaidd: Datblygu a modelu amcangyfrif dangosol o'r costau sy'n ymwneud â: 1) cynyddu tâl absenoldeb tadolaeth i 90% o'r cyflog llawn; a 2) rhoi 12 wythnos o absenoldeb nad oes modd ei drosglwyddo</p> <p>Holi am gyngor cyfreithiol ynghylch seiliau statudol a dyletswyddau cydraddoldeb ehangach</p> <p>Datblygu Cyngor Gweinidogol</p>	
			<p>Diweddariad drafft i'r Gweinidog; llythyr dilynol i Lywodraeth y DU</p>
	<p>Rhannu Absenoldeb Tadolaeth - Adolygu safbwynt Llywodraeth Cymru</p>	<p>Llunio dogfennau polisi</p> <p>Adolygu polisi absenoldeb Mamolaeth a Thadolaeth a Rhannu Absenoldeb ar draws cyrff cyhoeddus Cymru</p> <p>Nodi unrhyw faterion ac ystyried y camau nesaf</p>	
<p>Cynyddu Amrywiaeth o ran Penodiadau Cyhoeddus</p>		<p>Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth</p>	

YR ADOLYGIAD O GYDRADDOLDEB RHWNG Y RHYWIAU - Y MAP	2020	2021	2022	2023+
IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL	Datblygu a lansio cynllun strategol urddas mislif - datblygu'r cynllun mewn cydweithrediad ag aelodau o'r Ford Gron Weinidogol ar Urddas Mislif a swyddogion perthnasol			
	Dadansoddi ymarferoldeb a manteision agor clinigau colli babi yn ystod beichiogrwydd yn y Gogledd a'r De			
	Sicrhau bod Byrddau Iechyd y mae elfennau o'u darpariaeth sydd heb fod yn gwbl gydnaws â chanllawiau NICE ar Gamesgor a Beichiogrwydd Ectopig, ac sy'n cymryd camau i wneud gwelliannau, yn gorfod gwneud y gwelliannau hynny o fewn amserlen benodol, a rhoi esboniad ynghylch p'un a fydd y gwelliannau hyn yn golygu eu bod yn cyrraedd y safon ofynnol			
	Mae 'Gofal Mamolaeth yng Nghymru - Gweledigaeth 5 Mlynedd ar gyfer y Dyfodol 2019-2024' yn adeiladu ar y lefelau staffio a gyrhaeddwyd eisoes ac mae'n cefnogi'r nod o sicrhau dilyniant yng ngwasanaethau pob menyw a theulu yn ystod eu beichiogrwydd. Mae hyn yn dechrau gydag ymgyrch gychwynnol yn ystod y 18 mis cyntaf i sicrhau dilyniant gofal o'r cyfnod cyn i'r babi gael ei eni tan y cyfnod wedyn. Mae'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r Weledigaeth hon yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid, ac mae'n cael ei gydlynu drwy'r rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol.			
ADDYSG	Rhaglen Fentora Ffiseg a chynllun peilot Gwella'r Cydbwysedd rhwng y Rhywiau	Dull ysgol gyfan o addysgu am ryw a chydberthynas	Cyflwyno'r cwricwlwm newydd ym mhob ysgol gynradd ac ymhlith disgyblion blwyddyn 7 mewn ysgolion uwchradd yn 2022 - ei gyflwyno fesul blwyddyn ar gyfer gweddill blynnyddoedd ysgolion uwchradd hyd at 2026.	
	Adolygiad o Cenhadaeth ein Cenedl	Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Gwaith. Adolygiad o'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yng Nghymru o safbwynt Rhywedd - i ba raddau y mae'n mynd i'r afael â stereoteipio'r rhywiau o ran dysgu a gwaith?		
	Adolygiad o'r cydbwysedd rhwng y rhywiau Mireinio'r pecyn sefydlu i athrawon	Prentisiaethau/dysgu gydol oes/gostyngiad mewn cyfleoedd dysgu rhan-amser ym meysydd addysg bellach ac addysg uwch		
	Ymchwilio i ymarferoldeb sefydlu targedau ar gyfer darparwyr prentisiaethau er mwyn unioni'r anghydbwysedd ar draws fframweithiau.			

YR ADOLYGIAD O GYDRADDOLDEB RHWNG Y RHYWIAU - Y MAP	2020	2021	2022	2023+
<p>TLODI A DIWYGIO LLES</p>	<p>Yr Adolygiad o Dloddi i ddod i ben ym mis Mawrth, a llunio argymhellion a rhaglen weithredu.</p> <p>Dod â'r ymgynghoriad ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i ben. Mae hwn yn gyfrwng pellach i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb ymhlith y rheini sydd yn y perygl mwyaf.</p> <p>Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad ar weinyddu nawdd cymdeithasol ar 14 Ion 2020.</p> <p>Ymchwilio i ymarferoldeb gwneud y gwaith o ddadansoddi amcangyfrifon o dlodi yng Nghymru, sy'n deillio o ddata Arolwg Adnoddau Teuluoedd yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn fwy manwl ac eang.</p> <p>Gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Comisiwn Metrigau Cymdeithasol ar fesurau tlodi amgen.</p>	<p>Adeiladu ar gysylltiadau â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a Gwaith Teg, gan gynnwys mentrau eraill a fydd yn cefnogi camau i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith.</p> <p>Parhau i gyhoeddi dadansoddiadau perthnasol o dlodi yn ôl nodweddion gwarchoddedig, lle mae'r samplau yn caniatáu hynny, gan gynnwys ar sail Arolwg Cenedlaethol Cymru ac Arolwg Adnoddau Teuluoedd yr Adran Gwaith a Phensiynau.</p> <p>Ymchwilio i ymarferoldeb defnyddio cyfresi data arolygon gweinyddol ac sydd ar raddfa fawr er mwyn deall yn well nodweddion y rheini sy'n profi mwy nag un elfen amddifadedd.</p>	<p>Adroddiad bob tair blynedd ar hynt y gwaith o fynd i'r afael â thlodi plant.</p>	

YR ADOLYGIAD O GYDRADDOLDEB RHWNG Y RHYWIAU - Y MAP	2020	2021	2022	2023+
CYFLOGAETH	<p>Cryfhau'r cynllun cyflogeion</p> <p>Argymhellion Gwaith Teg a chysylltiadau ag argymhellion yn yr Adolygiad o'r Rhywiau</p> <p>Lansio gwedudalennau ynghylch arferion da mewn busnes</p> <p>Llwyddiant i symud ymlaen o waith cyflog isel ac adolygiad o ddyheadau gweithwyr rhan-amser am fwy o oriau ac enillion/p'un a yw rheolau cyfredol credyd cynhwysol yn cyfyngu ar hyn</p> <p>Adolygiad o bensiynau - anghydraddoldeb rhwng y rhywiau</p>	<p>Ymgyrch gyfathrebu ynghylch manteision i gyflogwyr</p> <p>Ymrwymiad o ran rhywedd yn y Cynllun Cyflogadwyedd - bwlch cyflog o ran rhywedd, anabledd a hil.</p> <p>Adolygiad o benderfyniadau buddsoddi Bargeinion Rhanbarthau a Dinesig o safbwynt rhywedd</p>	<p>Gallai'r Contract Economaidd a chaffael fod yn feysydd a allai wneud gwahaniaeth i rywedd, anabledd a hil, a'i gwneud yn fwy apelgar i fusnesau ymrwymo.</p>	
GOFAL PLANT		<p>Cyflwyno system ar-lein newydd ar gyfer gofal plant</p>		
TRAFNIDIAETH	<p>Adolygiad o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr</p> <p>Pecyn o hyfforddiant i edrych ar gwestiwn rhywedd a nodweddion gwarchoddedig eraill</p> <p>30 o lysgenhadon rheilffyrdd newydd</p>	<p>Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru</p> <p>Corff annibynnol i adolygu perfformiad, ac arolwg Cymru gyfan ar ddiogelwch</p>		<p>Deddfwriaeth tacsis</p> <p>Deddfwriaeth ar gyfer tymor nesaf y Cynulliad – gan edrych ar dacsis, gwasanaethau Metro, a thoiledau cyhoeddus.</p>

YR ADOLYGIAD O GYDRADDOLDEB RHWNG Y RHYWIAU - Y MAP	2020	2021	2022	2023+
TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL	Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu a chytuno ar fodel cyllid cynaliadwy	Parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i oruchwylio'r broses o weithredu'r model, ei adolygu a'i ddiwygio lle bo'n briodol		
	Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddechrau creu strategaeth bum mlynedd newydd ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma, nodi'r anghenion a datblygu blaenoriaethau.	Mireinio ac ymgynghori ar strategaeth bum mlynedd newydd a'i diwygio yng ngoleuni'r adborth.	Cyflwyno strategaeth bum mlynedd newydd a chynllun gweithredu, â'r mesurau yn seiliedig ar y Dangosyddion Cenedlaethol.	
	Datblygu fframwaith monitro i fesur i ba raddau y cydymffurfir â'r canllawiau comisiynu rhanbarthol statudol, gan gynnwys y gofyniad i gynnal dadansoddiad o'r anghenion a mapio'r gwasanaethau.	Monitro i ba raddau y cydymffurfir â'r canllawiau comisiynu statudol a darparu cymorth lle bo'n ofynnol	Adolygu'r ffordd y gweithredir y canllawiau comisiynu statudol, ac ystyried p'un a oes angen diwygio'r canllawiau neu'r fframwaith monitro	